Cyllid & Thollau EM

# Toll Dramor a/neu TAW mewnforio sy'n ymwneud â mewnforion drwy'r post

Llu'r Ffiniau

Dim ond os ydych o'r farn bod Toll Dramor neu TAW mewnforio wedi'i chyfrifo'n anghywir ar eich eitem a fewnforiwyd y mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon ar gyfer parseli neu becynnau a gafwyd drwy Parcelforce neu'r Post Brenhinol.

## Manylion y Mewnforiwr neu'r Derbyniwr yn y DU

(y person yr anfonwyd y nwyddau ato yn y DU)

Enw'r Mewnforiwr

Cyfeiriad

Cod post

E-bost

Rhif ffôn

Rhif Cofrestru TAW (os yw'n berthnasol)

Cyfeirnod y tâl (mae hwn fel arfer yn dechrau gydag 'EC' neu 'ZA' ac yn gorffen gyda 'GB')

Talwch y ffioedd tollau, a llenwch y ffurflen hon ar ôl talu, neu bydd eich parsel yn cael ei ddychwelyd at yr anfonwr. Rhowch fanylion unrhyw gyfeirnodau tâl ychwanegol yr ydych yn ymholi yn eu cylch ar ddalen ar wahân.

## Manylion y Doll Dramor neu'r TAW mewnforio a godwyd yn anghywir

Esboniwch pam rydych o'r farn bod yr hyn sy'n cael ei godi arnoch yn anghywir gan roi cymaint o fanylion â phosibl, gan gynnwys lleoliad y nwyddau

**Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i chi gynnwys:**

- y label du a gwyn ar gyfer tâl tollau (wedi'i lynu'n weladwy ar eich parsel gan ddangos dadansoddiad o'r costau)
- Ffurflen Datganiad Tollau (hefyd wedi'i glynu'n weladwy ar eich parsel ac wedi'i llenwi gan yr anfonwr
- anfoneb neu dderbynneb neu dystiolaeth arall o werth (megis tudalen eBay neu dderbynneb PayPal) y nwyddau
- ar gyfer nwyddau a ddychwelwyd - tystiolaeth o'r ad-daliad ar y nwyddau a ddychwelwyd, tystysgrif bostio, cost atgyweirio, ac at
- ar gyfer myfyrwyr tramor - cadarnhad gan y Brifysgol neu'r Coleg o fanylion y cwrs a chyfeiriad parhaol y tu allan i'r DU
- ar gyfer hen bethau - tystiolaeth wiriadwy o oedran

Os yw'r parsel yn cynnwys un neu fwy o roddion personol neu breifat oddi wrth rywun o dramor, rhowch gadarnhad ysgrifenedig gan yr anfonwr, gan gynnwys manylion y rhoddion, eu gwerth a'r derbynwyr arfaethedig.

Mae'n bosibl y bydd angen i chi hefyd roi ffurflenni eraill yn ôl yr angen neu os y gofynnir amdanynt, er enghraifft, ffurflen ToR1: *Application for transfer of residence relief.* Mae hyn yn cynnwys nwyddau i fyfyrwyr wrth iddynt astudio, dulliau o gludiant ac anifeiliaid. Dylech lenwi'r adran berthnasol ar ffurflen ToR1, fel arall bydd y ffurflen yn cael ei dychwelyd atoch, a gallai hyn ohirio unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus. I gael rhagor o wybodaeth am ffioedd, gweler Hysbysiad 143: *a guide for international post users.*

**Sylwer – ni allwn dderbyn ffurflenni anghyflawn na'r rhai nad ydynt yn cynnwys y dystiolaeth ategol ofynnol.**

## Datganiad

Tystiaf fod yr wybodaeth a roddwyd uchod yn gywir ac yn gyflawn. Rwy'n deall y gellir codi cosbau am roi gwybodaeth anwir.

Enw llawn (defnyddiwch briflythrennau)

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

## Manylion banc neu gymdeithas adeiladu

Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu

Enw'r cyfrif (er enghraifft, Mr Rhywun Arall)

Rhif y Cyfrif

Cod didoli

Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi, ynghyd â'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani uchod, i: Border Force, Coventry International Hub, Siskin Parkway West, COVENTRY, CV3 4HX.